OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2496 (Cy.215)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *28 Awst 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Awst 2007* |
| *Yn dod I rym - -* | *24 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Medi 2007.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliad Ewropeaidd" ("*the European Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli salmonela ac asiantau milheintiol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd (**2**);

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**3**);

ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau sydd wedi'u cymryd o dan bwynt 2.1.2.2 o'r Atodlen i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) OJ Rhif L325, 12.12.2003, p.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 dyddiedig 20 Tachwedd 2006.
(**3**) O.S. 2006/1293 (Cy.127).